# SL(6)634 – [Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025]

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn, ochr yn ochr â Rheoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025, yn diwygio is-ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli i gywiro gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud cywiriadau i bedwar gorchymyn presennol sy'n ymwneud â gwahanol feysydd o'r gyfraith:

- Mae Rhan 2 yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645 (Cy. 119));
- Mae Rhan 3 yn diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/767 (Cy. 112));
- Mae Rhan 4 yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801 (Cy.110));
- Mae Rhan 5 yn diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/55 (Cy.25)).

Yn ogystal, mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud dau ddiwygiad: yn gyntaf, i'r diffiniad o "maint glanio lleiaf" o fewn erthygl 9(7)(b) o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, yn dilyn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ail, mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 er mwyn sicrhau cysondeb yn y cyfeiriadau yng Ngorchmynion 2012 a 2016 at y corff a elwir yn "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru" (gweler paragraff 4.2.2 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn).

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd annilysu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'n ymddangos bod y Rhestr Cynnwys yn anghywir. Mae'n nodi bod erthyglau "1-3" yn ymwneud â Rhan 1 (dim ond erthygl 1 sydd wedi'i chynnwys yn Rhan 1). Mae Erthygl 2 wedi'i chynnwys yn Rhan 2 o'r Gorchymyn. Mae Rhan 3 yn cyfeirio at erthyglau 4-13 ond dylai gyfeirio at erthyglau 3-13 yn lle hynny. Nid yw Rhan 4 a Rhan 5 yn cynnwys cyfeiriad at erthyglau penodol o'r Gorchymyn. Rydym o'r farn bod defnyddio Rhestr Cynnwys yn ychwanegiad defnyddiol at offeryn o'r math hwn, sy'n cywiro gwallau mewn deddfwriaeth mewn amrywiaeth o feysydd pwnc, er mwyn cynyddu hygyrchedd. Fodd bynnag, mae'r gwallau yn y Rhestr Cynnwys yn ei gwneud yn anoddach i'r darllenydd ddod o hyd i eitemau yn yr offeryn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 4, mae'r disgrifiad o'r lleoliad ar gyfer mewnosod y paragraff (3) newydd yn erthygl 1 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 yn anghywir. Mae'n cael ei ddisgrifio fel "Yn erthygl 1 … ar ôl paragraff 1(2)" ond dylai nodi "Yn erthygl 1… ar ôl paragraff (2)" yn lle hynny.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 5, mae strwythur yr erthygl yn anghywir. Mae'r is-adrannau sy'n dilyn erthygl 5(1) wedi'u rhifo fel (2) i (6), ond yn lle hynny dylid eu rhifo (a) i (e). Mae hyn hefyd yn digwydd yn erthyglau 7, 9 a 13 o'r Gorchymyn.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Erthygl 9 wedi'i strwythuro'n wahanol yn nhestunau'r ddwy iaith. Yn y testun Cymraeg, mae erthygl 9 yn rhoi paragraff (1) newydd yn lle erthygl 12 o Orchymyn 2024 er mwyn cyflawni'r un effaith gyfreithiol â'r diwygiadau a wneir gan y testun Saesneg yn erthygl 9(1)-(3). Mae Erthygl 9(1)-(3) yn bodoli yn y testun Saesneg ond dim ond erthygl 9 sy'n bodoli yn y testun Cymraeg. Mae potensial i'r dull hwn greu dryswch os yw'r un erthyglau wedi'u rhannu a'u rhifo'n wahanol nhestunau offeryn yn y ddwy iaith.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn erthyglau 9 a 10, mae'r testun Cymraeg yn amnewid y paragraff cyfan i gyflawni'r un effaith â'r diwygiadau unigol a wneir gan destun Saesneg yr erthyglau hynny. Gall faint o destun sydd angen ei ddiwygio i gyflawni'r un effaith gyfreithiol amrywio yn nhestun y ddwy iaith. Fodd bynnag, os credir ei bod yn angenrheidiol amnewid paragraff cyfan mewn un iaith i gyflawni'r

un effaith ag a geir yn nhestun yr iaith arall, byddai'n fwy cyson amnewid y paragraff cyfan yn nhestun y ddwy iaith. Byddai hyn hefyd wedi osgoi'r gwahaniaethau yn strwythur testunau'r ddwy iaith yn erthygl 9 a amlygwyd uchod. Nid yw'n glir a wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried amnewid y paragraffau cyfan yn nhestun y ddwy iaith i gyflawni'r effaith gyfreithiol angenrheidiol o'r diwygiadau a wnaed gan erthyglau 9 a 10 o'r Gorchymyn.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn erthygl 15(2), nid yw'r testun Cymraeg yn nodi'n gywir y testun i'w amnewid ym mharagraff (j), yn y diffiniad o "Parthau Amddiffynedig TAN 15" o dan y pennawd "Dehongli'r Tabl" yn Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016. Mae'r testun Cymraeg yn nodi'n anghywir y testun i'w amnewid fel "Gyfoeth Naturiol" ond dylai nodi "Gyfoeth Naturiol Cymru" fel y nodir yn nhestun presennol y ddarpariaeth honno yn Atodlen 5 i Orchymyn 2016.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw teitl yr offeryn statudol yn rhoi syniad o natur na chynnwys yr offerynnau statudol Cymreig sy'n cael eu cywiro. Gallai hyn arwain at broblemau hygyrchedd o ran tynnu sylw darllenwyr at unrhyw offerynnau statudol Cymreig sy'n cael eu cywiro, ac sydd o ddiddordeb arbennig iddynt. Gallai hyn fod yn anochel os nad oes cysylltiad rhwng yr offerynnau statudol yn gyffredinol wrth ddefnyddio dull omnibws o gywiro offerynnau statudol.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn tynnu sylw at broblem gorfodi ymarferol sydd wedi bodoli cyn i'r cywiriadau a wnaed gan y Gorchymyn hwn gael eu gwneud:

> *"Mewn perthynas â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, nodwyd mater drafftio yn y diffiniad o "maint glanio lleiaf" y mae erthygl 7(3) o'r Gorchymyn bellach yn ymdrin ag ef. Mae hyn wedi cael rhai goblygiadau ymarferol i weithgarwch gorfodi. Mae geiriad presennol y diffiniad yn cyfyngu'r gallu i gymryd camau gorfodi ffurfiol mewn achosion lle mae cocos rhy fach yn cael eu casglu. O ganlyniad, mae swyddogion gorfodi wedi bod yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor ac annog ailddosbarthu cocos rhy fach. Mae'r dull hwn wedi bod yn effeithiol hyd yn hyn, ac nid oes unrhyw heriau gan gasglwyr wedi'u nodi. Mae datrys y mater hwn drwy'r Gorchymyn yn cael ei ystyried yn ffordd briodol, ac amserol, o ddelio â hyn."*

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r cywiriadau a wnaed gan y Gorchymyn yn ymwneud ag offerynnau statudol Cymru yr adroddwyd arnynt yn flaenorol gan y Pwyllgor. Ystyriwyd y gwallau cynharaf a gywirwyd gan y Gorchymyn hwn, yng Ngorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024. Ystyriwyd y gwallau yng Ngorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024 gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2024. Ystyriwyd y gwallau yng Ngorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 gan y Pwyllgor yn llawer mwy diweddar, ym mis Ebrill 2025.

Dylai Llywodraeth Cymru egluro:

- A allai Llywodraeth Cymru fod wedi gwneud y cywiriadau hyn yn gynt;
- Ai'r bwriad yw gwneud cywiriadau drwy offeryn statudol omnibus yn rheolaidd, pa mor aml y bydd offeryn o'r fath yn cael ei wneud, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw gwallau'n aros ar y llyfr statud am ormod o amser?;
- Ay fydd gan Lywodraeth Cymru fecanwaith ar gyfer blaenoriaethu cywiro'r gwallau hynny sy'n achosi effeithiau ymarferol neu effeithiau sydd fel arall yn fwy sylweddol ar ddeddfwriaeth berthnasol?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.